

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

05 Mehefin 2019

Yn bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Mr A Archer, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfeydd yr APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.50am – 11.50a.m.)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Mrs J James a Mr GA Jones.

2. Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2019.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Cofnod 10 – Meysydd parcio

Cafwyd trafodaeth hir ynglŷn â chyflwyno tâl am barcio ceir, yn enwedig yn West Angle. Roedd y Cynghorydd R Owens yn teimlo'n anghyfforddus ynglŷn â'r cynnig ac roedd am i'r mater gael ei ailystyried. Atebodd y Prif Weithredwr nad oedd y Gorchymyn Parcio Ceir wedi dod i rym eto, ond petai'r Aelodau yn dymuno ailystyried gweithredu'r taliadau parcio ceir rywdro yn y dyfodol, yna gellid ystyried y mater o'r newydd.

Roedd Dr R Heath-Davies o'r farn, gan fod aelodaeth yr Awdurdod wedi newid ers gwneud y penderfyniad gwreiddiol i gyflwyno taliadau mewn pedwar maes parcio newydd, y byddai'n ddefnyddiol i'r Aelodau gael dadl ynghylch y polisi ehangach o godi tâl er mwyn deall sut y daethpwyd i'r penderfyniad yn y lle cyntaf. Petai'r cyfryw ddadl yn digwydd, byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai'r Aelodau yn cael yr holl ddogfennau perthnasol fel gwybodaeth gefndir.

Roedd y Cynghorydd M Evans yn anghytuno oherwydd, yn ei farn ef, roedd y penderfyniad i godi tâl am barcio ceir yn y pedwar safle wedi cael



ei wneud yn ddemocrataidd ac roedd yr Aelodau yn awr mewn perygl o danseilio'r gwaith caled a wnaed gan y swyddogion.

(b) Cofnod 12 – Dyfarnu cymorth grant ychwanegol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Gan gyfeirio at yr elfen gyllid a dderbyniwyd ar gyfer gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru, holodd y Cynghorydd M Evans sut ellid blaenoriaethu'r gwaith yr oedd gwir angen ei wneud ar Lwybr yr Arfordir o Benalun i Lydstep. Cytunodd y Prif Weithredwr i ymchwilio i'r mater.

NODWYD.

(c) Cofnod 13 – Dirprwy Swyddog Monitro – cadarnhau'r penodiad
Dywedodd y Prif Weithredwr bod camau ymlaen wedi'u cymryd ar benodi Swyddog Monitro newydd.

NODWYD.

5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch Mrs Nicola Gandy ar gael ei phenodi yn ddiweddar yn Gyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc.

Diolchodd Mrs Gandy i'r Cadeirydd am ei sylwadau, gan ychwanegu ei bod yn edrych ymlaen at ei rôl newydd a'r heriau a wynebier gennym. Dymunodd ddiolch i Ms Jane Gibson, y Cyfarwyddwr presennol, am ei chefnogaeth, gan ddatgan na fyddai hi yn ei swydd bresennol oni bai am ei hanogaeth a'i chymorth.

NODWYD.

6. Y Pwyllgor Personél: 15 Mai 2019

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019 er gwybodaeth.

Dymunodd y Prif Weithredwr ddiolch i bawb am eu rhan yn y broses ddeuddydd o benodi Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc.

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019.

7. Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol: 15 Mai 2019

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019 i'w ystyried.



Gan gyfeirio at Gofnod 4 (Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad y cyfarfod), dywedodd Dr M Havard bod anghysondeb yn y dyddiad y cyfeiriwyd ato yn y penderfyniad, gan y dylai ddarllen 2018 ac nid 2019.

PENDERFYNWYD mabwysiadu adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019, yn amodol ar gynnwys y newid a nodir uchod.

8. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol Drafft 2020 – 2024 ar gyfer Ymgynghori

Atgoffodd y Swyddog Polisi Cadwraeth yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli pum mlynedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Roedd y Cynllun cyfredol yn cwmpasu'r cyfnod 2015 – 2019.

Yn dilyn cytundeb yr Aelodau ar 20 Mehefin 2018 ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer paratoi'r Cynllun Drafft newydd, roedd llawer o waith wedi'i wneud i gynnwys llu o bartneriaid a sefydliadau/cyrff ehangach yn y broses o baratoi'r Cynllun, ac roedd cofnod o'r gwaith ymgysylltu a wnaed hyd yn hyn yn atodedig i'r adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Swyddog ei fod ef a'i gydweithwyr wedi elwa'n sylweddol o'r cyfnod o 12 mis oedd yn arwain at gwblhau'r Cynllun drafft. Dymunodd ddiolch i'r Aelodau am eu mewnbwn yn y Gweithdai a hefyd i'w gydweithwyr Phil Barlow am yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a Mair Thomas am ei gwaith hithau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Gan droi at y Cynllun Drafft ei hun, dywedodd y Swyddog bod y cynllun wedi'i rannu'n bump adran o themâu, sef tirwedd ar gyfer bywyd a bywoliaeth; llesiant, mwynhad a darganfod; adfer bioamrywiaeth; dathlu treftadaeth a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Roedd y ddogfen yn dangos lle gwnaed newidiadau o ganlyniad i'r broses ymgysylltu, Gweithdai Aelodau, yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yn ogystal â llu o ddeunydd ategol, roedd tri atodiad i'r Cynllun Rheoli drafft oedd:

- Yn nodi deddfwriaeth, polisiau a chanllawiau perthnasol a'r modd y cymerwyd hwy i ystyriaeth;
- Yn cynnwys mwy o gefndir ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol;
- Yn cyfeirio at y gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Rheoli blaenorol;
- Yn egluro sut y cafodd y cyfleoedd a'r heriau eu clustnodi, ac
- Yn rhestru rhai o'r ffynonellau data allweddol a ystyriwyd wrth ddrafftio'r Cynllun.



Byddai tri Asesiad hefyd yn mynd law yn llaw â'r Cynllun Rheoli – sef Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol; Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yr olaf wedi'i gomisiynu yn ddiweddar.

I gloi, dywedodd y Swyddog Polisi Cadwraeth, yn amodol ar sylwadau'r Aelodau y diwrnod hwnnw, y byddai'n cwblhau'r dogfennau gyda'r bwriad o'u cyflwyno ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Byddai unrhyw sylwadau yn cael eu cyflwyno gerbron yr Aelodau ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r bwriad o gael Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi'i gytuno ac yn ei le erbyn 2020. Ychwanegodd na fyddai hyn yn ddiwedd ar y cylch; yn hytrach, ei obaith oedd y byddai'n sail i sgysiau gyda sefydliadau partner pan fyddent hwy yn ystyried eu cynlluniau eu hunain.

Llongyfarchodd Dr M Havard y Swyddog Polisi Cadwraeth ar ddogfen dda iawn ac eglur. Dywedodd bod y broses y tu ôl i'r Cynllun wedi bodloni'r holl ddisgwyliadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd ond bod angen cynnwys hynny yn y rhagair. Ychwanegodd y dylai'r rhagair hefyd amlygu'r gwaith eithriadol a wnaed eisoes gan yr Awdurdod.

Holodd Dr R Heath-Davies a oedd unrhyw waith wedi'i wneud o ran Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, a beth oedd y canfyddiadau gan na allai weld unrhyw dystiolaeth o hyn yn y ddogfen ddrafft. Atebodd y Swyddog nad oedd asesiad penodol wedi'i wneud o'r iaith Gymraeg, ond bod effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg wedi'i ystyried.

Dyweddodd Dr Heath-Davies bod y Safonau Iaith yn gofyn am gynnal asesiad trosfwaol o leiaf o'r effaith ar yr iaith, a chynigiodd y dylid gwneud hynny cyn dechrau ar y broses ymgynghori. Eiliwyd y cynnig yn briodol. Hefyd holodd a ellid rhannu Polisi H2 yn ddwy adran: Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a thafodieithoedd lleol a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd; un ar dreftadaeth ddiwylliannol ac un ar yr iaith.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M James at gau toiledau cyhoeddus a'r effaith ar dwristiaeth a thraethau baner las. Roedd yn sylweddoli nad oedd hyn o fewn cylch gwaith yr Awdurdod, ond gallai'r canlyniadau gael effaith ar y Parc Cenedlaethol. Soniodd hefyd am ansawdd y dŵr a pha mor bwysig yw bod cyllidebau ar gael ar gyfer profi'r ansawdd yn barhaus gan fod ansawdd dŵr yn allweddol i'r economi wledig. Ymatebodd y Swyddog drwy ddweud bod y mater o gau toiledau cyhoeddus wedi cael ei nodi yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, gan ychwanegu y gellid dyfeisio cwestiwn penodol i'w gynnwys yn y broses ymgynghori.

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnwys cyfeiriad at yr amgylchedd morol yn y rhestr o 'Gyfleoedd a Heriau', a gofynnodd y Cynghorydd M Evans am



newid y geiriad a ddefnyddir yn yr eirfa ar gyfer 'tai fforddiadwy'. Hefyd tynnodd y Cynghorydd Evans sylw at bwysigrwydd refeniw twristiaeth i'r economi, gan fod y tri Parc Cenedlaethol yng Nghymru yn cynhyrchu dros £3 biliwn y flwyddyn, ac awgrymodd y gallai fod mwy o rôl i'r Awdurdod yn y maes hwn.

PENDERFYNWYD bod yr Aelodau:

- (a) yn cymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus:
 - (i) y 'Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol drafft 2020 – 2024 ar gyfer ymgynghori' oedd ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw;
 - (ii) yr 'Arfarniad o Gynaliadwyedd (oedd yn ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol)' y Cynllun Rheoli;
 - (iii) yr 'Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb' y Cynllun Rheoli;

- (b) yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion:
 - (i) gyhoeddi'r 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' y Cynllun Rheoli ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus;
 - (ii) gwneud unrhyw fân newidiadau i'r 'Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol drafft 2020 – 2024 ar gyfer Ymgynghori' all fod angen eu gwneud yn ôl yr 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (byddai unrhyw newid sylweddol mewn cyfeiriad polisi yn cael ei adrodd yn ôl i'r Aelodau);
 - (iii) gwneud unrhyw fân newidiadau i'r 'Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol drafft 2020 – 2024 ar gyfer Ymgynghori' fel y bernir sydd angen eu gwneud o ran cywirdeb neu eglurder, ac

- (c) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gynnal asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg fel sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg 88 – 93 cyn dechrau ar y broses o ymgynghori â'r cyhoedd ar y 'Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol Drafft 2020 – 2024 ar gyfer Ymgynghori'.

9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19

Dywedwyd bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyfrwng i ddangos llwyddiant yr Awdurdod o ran cyflawni gwelliant parhaus mewn perfformiad; yn clustnodi'r systemau a'r prosesau rheoli, ac yn tynnu sylw at faterion llywodraethu arwyddocaol y mae angen mynd i'r afael â hwy. Croesawyd sylwadau'r Aelodau ar y Datganiad drafft, ac roedd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol eisoes wedi ystyried y drafft yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2019.

Roedd Dr R Plummer yn croesawu'r ffaith bod y ddogfen wedi cael ei drafftio ac yn gwerthfawrogi'r gwaith oedd wedi'i wneud i'w baratoi. Mewn ymateb i sylw Dr M Havard bod Polisi Chwythu'r Chwiban yr Awdurdod bellach yn 10 oed, dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai'r cyfeiriad ato yn cael ei ddileu o Ddatganiad y flwyddyn nesaf gan fod



manylion y polisi bellach wedi'u hymgorffori yn y Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/19.

- 10. Cymeradwyo grantiau yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol**
Dyweddod y Rheolwr Cyllid, yn unol ag Adran 78 o'r Safonau Ariannol (2016), bod rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo talu grant nawdd gwerth cyfanswm o dros £10,000 o dan un cytundeb.

Roedd ei adroddiad yn rhoi manylion am ddau o'r cyfryw daliadau yn y flwyddyn ariannol 2019/20, sef cyfanswm o £12,500 i Fforwm Arfordirol Sir Benfro i helpu i integreiddio a rheoli gweithgaredd arfordirol, a thaliad o rhyw £73,000 i Gyngor Sir Penfro fel cyfraniad tuag at Bartneriaeth Lonydd Glas Sir Benfro.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y ddau grant o werth eithriadol o dda ac yn brosiectau cadarnhaol i'r Awdurdod eu cefnogi.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau, fel y nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

(Cyflwynodd y Cynghorydd P Kidney ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.)

11. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r Awdurdod o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, a chyflwynwyd yr adroddiad am 2018/19 i'w ystyried gan yr Aelodau.

Cytunwyd ar y cyfan â'r adroddiad, yn amodol ar fân newidiadau. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am i'r Aelodau arwain o'r tu blaen o ran hyrwyddo'r Gymraeg o fewn yr Awdurdod a thu allan i'r Awdurdod.

PENDERFYNWYD cytuno ar yr Adroddiad Blynyddol, yn amodol ar y newidiadau a godwyd yn y cyfarfod, i'w gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

